OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2001 No. 2193

# Rheoliadau'r Polisi Amaethyddol Cyffredin (Gwin) (Cymru) 2001

## RHAN III

## GWINOEDD O SAFON A GYNHYRCHIR MEWN RHANBARTHAU PENODEDIG

### Y rhanbarthau penodedig

**13.**—(1) Yn ddarostyngedig i baragraff (2) isod, y rhanbarthau a ddisgrifir yn Atodlen 4, yw'r rhanbarthau penodedig yng Nghymru at ddibenion Pwynt A o Atodiad VI i Reoliad y Cyngor (EC) 1493/1999.

(2) Hepgorir o'r ardaloedd a ddisgrifir yn Atodlen 4 unrhyw dir sydd wedi'i leoli ar uchder o fwy na 220 metr uwchlaw lefel y môr.

### Cryfder alcoholaidd naturiol gofynnol

**14.** Chwech y cant fydd cryfder alcoholaidd naturiol gofynnol gwinoedd o safon psr a gynhyrchir yn y rhanbarthau penodedig.

### Awdurdodiad o dan Bwynt D, paragraff 3, o Atodiad VI i Reoliad 1493/1999

**15.** Er gwaethaf darpariaethau Pwynt D, paragraff 1(b), o Atodiad VI i Reoliad y Cyngor (EC) 1493/1999, sy'n ei gwneud yn ofynnol bod grawnwin yn cael eu prosesu'n fwst a bod y mwst hwnnw'n cael ei brosesu'n win yn ogystal â bod y gwin hwnnw'n cael ei gynhyrchu o fewn y rhanbarth penodedig lle cafodd y grawnwin a ddefnyddiwyd eu cynaeafu, gall gwin o safon psr gael ei gynhyrchu mewn ardal sydd yn union gyfagos at ranbarth penodedig.

### Uchafswm cynnyrch

**16.** At ddibenion Pwynt I, paragraff 1, o Atodiad VI i Reoliad 1493/1999, 100 hectolitr fydd yr uchafswm cynnyrch am bob hectar o dir y tyfir gwinwydd arno i gynhyrchu gwinoedd o safon psr yn y rhanbarthau penodedig.

### Prawf dadansoddol

**17.** At ddibenion Pwynt J, paragraff 1(a), o Atodiad VI i Reoliad y Cyngor (EC) 1493/1999—

(a) mesuriad o bob un o'r ffactorau a bennir yn Atodlen 5 mewn perthynas â'r gwin hwnnw fydd y prawf dadansoddol i ddarganfod a yw unrhyw win yn gymwys i'w ddynodi yn win o safon psr; a

(b) dim ond os yw'n bodloni pob safon a bennir yn yr Atodlen honno y bydd gwin yn gymwys fel hyn.

**Dynodi corff cymwys**

**18.** At ddibenion Erthygl 56 o Reoliad y Cyngor (EC) 1493/1999, fel y'i darllenir gydag Erthyglau 10 a 12 o Reoliad y Comisiwn (EC) 1607/2000 sy'n nodi rheolau manwl ar gyfer gweithredu Rheoliad y Cyngor (EC) 1493/1999 ar gyd -drefniadaeth y farchnad mewn gwin, yn benodol y Teitl sy'n ymwneud â gwin o safon a gynhyrchir mewn rhanbarthau penodedig(**1**), mae'r Bwrdd Safonau Gwin drwy hyn yn cael ei ddynodi fel y corff cymwys y cyfeirir ato yn yr Erthyglau hynny.

(**1**) OJ Rhif L185, 25.7.2000, t.17.